**LC537**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU DRAFFT** | **LEGISLATION COMMITTEE REPORT DRAFT**

**Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) 2002 OS 2002 Rhif 2127 (W.214)**

Wrth weithredu Cyfarwyddebau'r Cyngor, mae'r rheoliadau hyn yn cyflwyno gofyniad i asesu effeithiau amgylcheddol mewn perthynas â phrosiectau sy'n ymwneud â defnyddio tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol at ddibenion amaethu dwys. Mae hyn yn gymwys i brosiectau nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer ac nas cwmpesir fel arall o dan ofynion effeithiau amgylcheddol sy'n gymwys i goedwigaeth a draenio tir.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o destun Saesneg o'r rheoliadau hyn mae ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi nodi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi'u hystyried. Yn unol â hynny, nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau**

**Rheoliad 6**

Gan dderbyn nad yw dehongliad y rheoliadau wedi'i beryglu o gwbl nodir nad yw'r geiriad "in accordance with regulation 13" sy'n ymddangos yn y testun Saesneg yn ymddangos yn y testun Cymraeg.

**Rheoliad 15(12)**

Mae’n anodd dilyn y geiriad yn y testun Cymraeg. Efallai y bydd angen i ddefnyddwyr gyfeirio at y testun Saesneg er mwyn deall y ddarpariaeth hon.

**Atodlen 3, paragraff 4**

Ymddengys nad yw’r geiriau “neu wedi’i gwblhau” yn berthnasol gan ei bod yn ymhlyg yng ngeiriad Rheoliad 14 yn ôl pob golwg nad yw ond yn gymwys lle yr erys prosiect i’w gyflawni neu i’w gwblhau.

Ymgynghorydd Cyfreithiol
Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-446
25 Medi 2002